**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**7fed Chwefror 2011**

**CRYNODEB O AMCANION GWELLA A LLEIHAU RISG AR GYFER 2011-12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Crynhoi amcanion Gwella a Lleihau Risg 2011-12 i'r Aelodau.

## Cefndir

2 Roedd Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ehangu'r diffiniad o wella ac yn annog Awdurdodau Gwella Cymreig i bennu eu hamcanion gwella eu hunain o dan unrhyw saith elfen ddiffiniedig o wella.

3 Mae canllawiau Cynllunio i Ostwng Risg yn hyrwyddo mabwysiadu proses flynyddol o bennu'r risgiau corfforaethol a chymunedol sy'n wynebu'r Awdurdod a datblygu cynlluniau gweithredu i'w rheoli.

4 Derbynnir yn ymarferol y byddai'n anodd gwahanu unrhyw weithgaredd lleihau risg na fyddai hefyd yn cael ei farnu i fod yn 'welliant' fel y diffinnir o dan y Mesur.

## Cyflwyniad

5 Yn dilyn ystyried ystod eang o wybodaeth, fe ddatblygodd ac fe gytunodd yr Awdurdod ar set o saith Amcan Gwella i weithio tuag atynt o Ebrill 2011.

## Gwybodaeth

6 Mae Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer Ebrill 2011 ymlaen wedi eu cynnwys o fewn Adran 4 y Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2009-12 wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

7 Parheir i ddilyn yr amcanion a gytunwyd arnynt ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2011, a bydd amcanion ychwanegol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r penderfyniad i rewi'r gyllideb refeniw ar £32 miliwn ar gyfer y tair blynedd nesaf.

8 Bydd cyfarfodydd mewnol chwarterol yn darparu fforwm ar gyfer monitro gweithredoedd cynlluniedig ar gyfer cyflawni'r amcanion yn rheolaidd a bydd monitro allanol yn rhan o Archwiliad Gwella Swyddfa Archwilio Cymru.

## Argymhellion

9 Fod Aelodau'n nodi'r Amcanion Gwella cytunedig sydd wedi eu cynnwys o fewn Adran 4 y Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2009-12 ar gyfer y flwyddyn ar ddod 2011-12.

| | |
|---|---|
| | **<u>AMCANION GWELLA/LLEIHAU RISG 2011-12</u>** |
| | |
| **AMC 1** | **Ceisio cadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.** |
| 1.1 | Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg (sy'n cynnwys Darparu cyngor Diogelwch Cymunedol, targedu a theilwra'r ddarpariaeth Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a darparu offer yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen a asesir.) |
| 1.2 | Asesiad cymheiriaid o'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol. |
| 1.3 | Monitro'n barhaus yr achosion o danau mewn cartrefi. |
| 1.4 | Cael sefydliadau partner i ddysgu gwersi o ganlyniad i danau mewn cartrefi er mwyn lleihau'r tebygolrwydd ohonynt yn digwydd eto. |
| 1.5 | Defnyddio gwybodaeth i ragweld ac atal tanau mewn cartref. |
| 1.6 | Datblygu safon cyrraedd lleol er mwyn cefnogi ymateb cyflym a chywir i danau mewn cartrefi. |
| 1.7 | Gwella argaeledd gorsafoedd tân y system yn ôl y galw, trwy reolaeth fwy effeithlon o'r prosesau recriwtio. |
| | |
| **AMC2** | **Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n digwydd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgarwch arferol yn gallu parhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoi mewn perygl.** |
| 2.1 | Datblygu'n barhaus raglen dargedu archwiliadau o drefniadau diogelwch tân mewn eiddo annomestig gan ddefnyddio gwybodaeth leol a gwybodaeth sydd yn y System Rheoli Cofnodion. |
| 2.2 | Ymateb cyflym a chywir i danau mewn eiddo annomestig gan griwiau tân sydd â gwybodaeth ar derfynellau data symudol wedi eu cysylltu â chofnodion am beryglon a gwybodaeth arall. |
| | |
| **AMC3** | **Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol.** |
| 3.1 | Parhau i weithio'n rhyngasiantaethol (e.e. gydag Asiantaeth yr Amgylchedd) a chyfranogiad gweithredol yn y Fforwm Cydnerthedd Lleol. |
| 3.2 | Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau sydd â'r nod o gynyddu diogelwch ar y ffyrdd, megis Pass Plus Cymru, y Cynllun Addysg Moduro a'r Sioeau Gwrthdrawiadau. |
| 3.3 | Datblygu dull o greu proffiliau o wrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi a gwella'r strategaeth i liniaru eu heffeithiau. |

| | |
|---|---|
| 3.4 | Datblygu dangosyddion perfformiad lleol, a mesurau gwaelodlin yn eu herbyn, i gefnogi gwelliant yn y maes hwn. |
| 3.5 | Cynnydd parhaus yn y cofnodion cywir o ddeunyddiau peryglu sydd ar safleoedd. |
| | |
| **AMC4** | **Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl.** |
| 4.1 | Cydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill i atal tanau bwriadol a fandaliaeth oherwydd tân. |
| 4.2 | Gweithio'n agos gyda grwpiau ac unigolion penodol (e.e. trwy gynlluniau'r Ffenics a FACE) i ddylanwadu ar ymddygiad a'i gyfeirio oddi wrth losgi bwriadol. |
| | |
| **AMC5** | **Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub.** |
| 5.1 | Rhoi'r Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy ar waith fesul cam. |
| | |
| **AMC6** | **Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol.** |
| 6.1 | Dwyn ynghyd ystod o wybodaeth am boblogaethau o ffynonellau dibynadwy er mwyn cefnogi'r gwaith o dargedu cynghorion diogelwch effeithlon ac effeithiol. |
| 6.2 | Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n cynorthwyo i amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn annheg ar sail eu hoedran, anabledd, gender, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol. |
| | |
| **AMC7** | **Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallent fod.** |
| 7.1 | Ail-werthuso adnoddau a chyfrifoldebau Cynllunio Parhad Busnes er mwyn hybu pwyslais o'r newydd ar symud ymlaen gyda'r cynlluniau cyfredol a datblygu rhai newydd yn barhaus; |
| 7.2 | Rhoi cymaint o bwys ar reoli parhad busnes yn gorfforaethol ac yn weithredol, er mwyn sicrhau nad oes yr un maes wedi ei anghofio, a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn. |